Taliadau Niwed trwy Frechiad

Mehefin 2009

DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr

Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ym mis Mehefin 2009. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 8.30am a 4.30pm ar ddydd Gwener ar:

Ffôn **01772 89 99 44** Ffôn testun **01772 56 22 02**

Cynnwys

Beth yw Taliad Niwed trwy Frechiad? 4

Pa frechiadau sy'n cael eu cwmpasu?. 5

Pwy all gael Taliad Niwed trwy Frechiad? 7

Beth y mae 'anabledd difrifol' yn ei olygu? 8

Pryd y dylwn wneud cais? 8

A allaf hawlio Taliad Niwed trwy Frechiad ar gyfer rhywun arall ?. 9

Faint yw Taliad Niwed trwy Frechiad? 10

I bwy y caiff Taliad Niwed trwy Frechiad ei dalu? . . 10

Sut wyf yn hawlio Taliad Niwed trwy Frechiad neu'n cael rhagor o wybodaeth? 11

Fformatau eraill. 14

Ewch i'n gwefan yn:

www.direct.gov.uk/disability-vdp

Beth yw Taliad Niwed trwy Frechiad?

Os oes gennych anabledd difrifol o ganlyniad i frechiad, mae'n bosibl y gallwch gael Taliad Niwed trwy Frechiad.

Taliad untro di-dreth yw hwn i'ch helpu gyda'r costau ychwanegol y gallwch eu hwynebu.

Ni chwmpesir pob brechiad.

Nid oes ots os oes gennych gynilion neu arian arall yn dod i mewn, gallwch gael Taliad Niwed trwy Frechiad o hyd.

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 8.30am a 4.30pm ar ddydd Gwener ar:

Ffôn **01772 89 99 44** Ffôn testun **01772 56 22 02**

Pa frechiadau sy'n cael eu cwmpasu?

Gallwch gael Taliad Niwed trwy Frechiad os oes gennych anabledd difrifol o ganlyniad i gael brechiad ar gyfer unrhyw un o'r afiechydon canlynol:

- Difftheria;
- Tetanws;
- Y Pas;
- Polio;
- Y Frech Goch;
- Clwy'r Pennau;
- Y Frech Almaenig (rwbela);
- Twbercwlosis;
- Y Frech Wen (hyd at 1 Awst 1971);
- HIB (Ffliw Hemoffilws math B);
- Llid yr ymennydd C;
- Haint niwmococol;
- Human Papillomavirus

Gall hefyd gynnwys brechiadau cyfunol fel:

- DTP - difftheria, tetanws a'r pas; neu
- MMR - y frech goch, clwy'r pennau a rwbela.

Ewch i'n gwefan yn:

www.direct.gov.uk/disability-vdp

Gallwch hefyd gael Taliad Niwed trwy Frechiad os oes gennych anabledd difrifol a achoswyd gan:

- eich mam yn cael un o'r brechiadau hyn pan oedd yn feichiog gyda chi; neu
- bod yn gorfforol agos at rywun a gafodd frechiad polio drwy'r geg.

Os ydych yn ansicr, gofynnwch.

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 8.30am a 4.30pm ar ddydd Gwener ar:

Ffôn **01772 89 99 44** Ffôn testun **01772 56 22 02**

Pwy all gael Taliad Niwed trwy Frechiad?

Os oes gennych anabledd difrifol o ganlyniad i gael un neu fwy o'r brechiadau a restrir ar dudalen 5 pan oeddech o dan 18 oed, gallwch wneud cais.

Gallwch hefyd wneud cais os oes gennych anabledd difrifol o ganlyniad i gael brechiad ar gyfer polio, rwbela, llid yr ymennydd C neu Human papillomanvirus pan oeddech dros 18 oed.

Os ydych chi neu aelod o'ch teulu yn y Lluoedd Arfog a bod gennych anabledd difrifol o ganlyniad i gael unrhyw un o'r brechiadau hyn fel rhan o driniaeth feddygol yn y Lluoedd Arfog pan oeddech dramor, gallwch wneud cais.

Os yw'r unigolyn a gafodd y brechiad wedi marw, gallwch wneud cais ar eu cyfer o hyd.

Mae'n rhaid eich bod wedi cael y brechiad yn y Deyrnas Unedig, yn Ynys Manaw, neu fel rhan o driniaeth feddygol y Lluoedd Arfog pan oeddech dramor.

Hyd yn oed os ydych wedi symud dramor, mae'n bosibl y gallwch gael Taliad Niwed trwy Frechiad o hyd.

Os ydych yn ansicr, gofynnwch.

Ewch i'n gwefan yn:

www.direct.gov.uk/disability-vdp

Beth y mae 'anabledd difrifol' yn ei olygu?

Rydym yn cyfrifo anabledd fel canran. Mae rhywun sydd ag 'anabledd difrifol' yn rhywun sy'n 60 y cant neu fwy yn anabl. Gallai hwn fod yn anabledd corfforol neu feddyliol. Er enghraifft, pe byddech yn colli eich golwg neu eich clyw yn gyfan gwbl, byddem yn ystyried eich bod 100 y cant yn anabl.

Pryd y dylwn wneud cais?

Dylech wneud cais cyn gynted ag y gallwch.

Rhaid i chi wneud hyn:

- cyn eich pen-blwydd yn 21 oed; neu
- o fewn chwe blynedd i'r dyddiad y cawsoch y brechiad os ydych dros 21 oed.

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 8.30am a 4.30pm ar ddydd Gwener ar:

Ffôn **01772 89 99 44** Ffôn testun **01772 56 22 02**

A allaf hawlio Taliad Niwed trwy Frechiad ar gyfer rhywun arall?

Gallwch.

Fel rhiant, gwarcheidwad neu gynrychiolydd, gallwch wneud cais ar gyfer unigolyn os ydynt:

- rhwng dau a 21 oed; neu
- dros 21 oed, ond wedi cael y brechiad o fewn y chwe blynedd ddiwethaf.

Os yw'r unigolyn wedi marw, gallwch wneud cais ar eu cyfer o hyd os oeddent dros ddwy flwydd oed pan fuont farw a'ch bod yn gwneud y cais:

- cyn y diwrnod y byddent wedi cael eu pen-blwydd yn 21 oed; neu
- o fewn chwe blynedd iddynt gael y brechiad.

Ewch i'n gwefan yn:

www.direct.gov.uk/disability-vdp

Faint yw Taliad Niwed trwy Frechiad?

Taliad untro o £120,000 yw'r Taliad Niwed trwy Frechiad. Nid oes rhaid i chi dalu treth ar yr arian hwn.

I bwy y caiff Taliad Niwed trwy Frechiad ei dalu?

Os ydych dros 18 oed ac yn gallu rheoli eich arian eich hun, telir y Taliad Niwed trwy Frechiad i chi.

I bobl sydd o dan 18 oed neu bobl na allant reoli eu harian eu hunain, telir y Taliad Niwed trwy Frechiad i ymddiriedolwyr sy'n gweithredu ar eu rhan.

Gall rhieni weithredu fel ymddiriedolwyr.

Os yw'r unigolyn anabl wedi marw, bydd yr unigolyn sy'n gweithredu ar eu cyfer yn cael y taliad.

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 8.30am a 4.30pm ar ddydd Gwener ar:

Ffôn **01772 89 99 44** Ffôn testun **01772 56 22 02**

Sut wyf yn hawlio Taliad Niwed trwy Frechiad neu'n cael rhagor o wybodaeth?

I hawlio Taliad Niwed trwy Frechiad, mae angen i chi gwblhau ffurflen gais.

Mae sawl ffordd y gallwch gysylltu â ni i gael ffurflen gais neu i gael rhagor o wybodaeth.

Dros y ffôn

Gallwch ffonio'r Uned Taliadau Niwed trwy Frechiad ar:

- 01772 89 99 44 (ffôn); neu
- 01772 56 22 02 (ffôn testun).

Mae'r llinellau ar agor rhwng 8.30am a 5pm, o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 8.30am a 4.30pm ar ddydd Gwener.

Ewch i'n gwefan yn:

www.direct.gov.uk/disability-vdp

Ffonau testun

Lle y darperir ffonau testun, maent ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd i lefaru neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai bydd gan ambell lyfrgell neu ganolfannau cyngor ar bopeth un. Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Gallwch hefyd ffonio drwy ddefnyddio Typetalk RNID.

Pan fyddwch yn ein ffonio, gall yr unigolyn sy'n cymryd eich galwad ond rhoi cyngor. Nid yw'r cyngor hwn yn cyfateb i benderfyniad ar gais.

Cost galwadau

Roedd y taliadau'n gywir ar y dyddiad ar gefn y daflen hon.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai cost galwadau i rifau 0845 o linellau daear BT fod yn fwy na 4c y funud gyda thâl o 3c ar gyfer gwneud yr alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly gofynnwch i'ch darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 8.30am a 4.30pm ar ddydd Gwener ar:

Ffôn **01772 89 99 44** Ffôn testun **01772 56 22 02**

Ar-lein

Ewch i www.direct.gov.uk/disability-vdp am gyngor cyffredinol neu www.direct.gov.uk/disability-vdpclaim i gael ffurflen gais.

Gallwch anfon neges e-bost atom yn CAU-VDPU@dwp.gsi.gov.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Yn ysgrifenedig

Gallwch ysgrifennu i'r Uned Taliadau Niwed trwy Frechiad yn:

Vaccine Damage Payments Unit
Palatine House
Lancaster Road
Preston
PR1 1HB

Ewch i'n gwefan yn:

www.direct.gov.uk/disability-vdp

Fformatau eraill

Mae'r daflen hon hefyd ar gael:

- yn Gymraeg
- mewn print bras
- mewn Braille
- ar dâp sain
- ar gryno-ddisg sain

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 8.30am a 4.30pm ar ddydd Gwener ar:

Ffôn **01772 89 99 44** Ffôn testun **01772 56 22 02**

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar-lein:

Directgov

Os oes gennych anabledd neu'n gofalu am rywun, ewch i Directgov nawr i gael gwybodaeth am gymorth ariannol, hawliau, cyflogaeth, byw'n annibynnol a llawer mwy.

Mae gan Directgov y dewis ehangaf o wybodaeth lywodraethol i'r cyhoedd ar-lein.

www.direct.gov.uk/disability

www.direct.gov.uk/carers

Ewch i'n gwefan yn:

www.direct.gov.uk/disability-vdp

(h) Hawlfraint y goron
Cynhyrchwyd gan y Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr, rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau.

ISBN: 978-1-84947-068-1
VACDPA5DCSW | f3.0 Mehefin 2009